Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cynwyd Sant
# Pen-Yr-Ysgol
# Maesteg
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF34 9YE

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Cynwyd Sant ym Maesteg ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae 306 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 40 o ddisgyblion oed meithrin. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 11 dosbarth gan gynnwys 5 oed cymysg. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Ychydig o ddisgyblion ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 13% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r ysgol wedi adnabod bod 16% o ddisgyblion yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol (25%). Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o dan ofal yr awdurdod lleol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Tachwedd 2000 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2011.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm a/neu ddysgu proffesiynol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cynwyd Sant yn 2015-2016 yw £3,189. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw £4,484 a'r lleiafswm yw £2,872. Mae Ysgol Cynwyd Sant yn safle 33 allan o 48 ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a dysgu annibynnol yn llwyddiannus iawn
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar i safon uchel iawn ac yn medru cyfleu eu hunain yn ysgrifenedig yn glir ac yn ddiddorol mewn ystod o ffurfiau ar draws y cwricwlwm
- medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol
- cyfraniad rhan fwyaf y disgyblion i fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol iawn
- ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog yn bodoli, sy'n ysgogi diddordeb disgyblion ac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gynhwysfawr, yn effeithiol, ac yn ganolog i'w holl fywyd a gwaith
- ansawdd yr addysgu yn effeithiol ac yn gyson gadarn ar draws yr ysgol
- ganddi weithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer sicrhau gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- arweinyddiaeth flaengar ac arloesol y pennaeth yn sicrhau bod ei gweledigaeth a'i hathroniaeth yn cael ei rhannu'n llwyddiannus iawn gyda'r holl randdeiliaid
- arweinwyr yn cyfrannu'n ardderchog i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel a chodi safonau ar draws yr ysgol
- y corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol sy'n eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- ynddi ddiwylliant llwyddiannus iawn o hunanarfarnu a gweithdrefnau sicrhau gwelliant sy'n treiddio trwy bron pob agwedd o fywyd yr ysgol; o ganlyniad, mae gan arweinwyr a staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach
- gweithdrefnau hunanarfarnu'n cynnwys barn rhanddeiliaid yn dda ac mae llais y disgyblion yn nodwedd ragorol o'r broses; mae eu llais yn dylanwadu'n gryf ar sicrhau trefniadau a chwricwlwm celfyddydau creadigol llwyddiannus
- yr ysgol yn cynllunio'n effeithiol iawn ar gyfer gwireddu blaenoriaethau sy'n deillio o'r adroddiad hunanarfarnu

- yr ysgol yn rhannu ei harfer dda yn llwyddiannus iawn ac yn cydweithio’n eithriadol o effeithiol gyda nifer fawr o ysgolion a mudiadau eraill yn lleol ac yn genedlaethol; mae hyn yn cryfhau cymhwysedd staff yr ysgol yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus a chodi safonau
- prosesau rheoli perfformiad effeithiol iawn yn bodoli ac mae hyfforddiant pwrpasol yn cefnogi anghenion staff yn llwyddiannus iawn; mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â’r athroniaeth sy’n gyrru gwaith yr ysgol yn llwyddiannus iawn
- yr ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol iawn gyda rhwydweithiau llwyddiannus yn bodoli rhyngddi a nifer o ysgolion a mudiadau eraill sy’n cynnig ystod eang o gyfleoedd i arweinwyr, athrawon a chymorthyddion ddatblygu’n broffesiynol a chydweithio’n llwyddiannus i wella safonau gwaith disgyblion

## Argymhellion

A1 Parhau i gynyddu cyfraddau presenoldeb disgyblion

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol y mwyafrif yn is na'r disgwyl a chyda'r Gymraeg yn iaith newydd i'r rhan fwyaf ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan ddatblygu eu medrau sylfaenol, eu medrau meddwl a'u medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus iawn.

Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n gadarn yn fuan iawn ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn gwrando'n dda ac yn sgwrsio a thrafod gyda'u cyfoedion ac oedolion yn hyderus ac yn fedrus iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar o safon uchel iawn. Maent yn dangos balchder at y Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith y tu fewn a thu hwnt i'r dosbarth. Maent yn siarad mewn iaith safonol gan ddefnyddio ystod o eirfa'n fedrus iawn. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus iawn yn eu gallu i siarad o flaen eu cyfoedion ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau, gan fynegi eu barn yn glir ac yn aeddfed. Mae hyn yn nodwedd gref ar draws yr ysgol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau ac yn dechrau adeiladu geiriau'n effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus gan ddarllen gyda chywirdeb a rhuglder. Maent yn trafod eu hoff storïau yn frwdfrydig ac yn medru disgrifio nodweddion llyfrau'n llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol. Maent yn darllen yn ddeallus a chyda rhuglder gynyddol, gan drafod cynnwys a mynegi barn am y cynnwys yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth i gefnogi eu gwaith dosbarth, er enghraifft wrth ddarganfod gwybodaeth am Owain Glyndwr er mwyn ysgrifennu blog a wiki am bwysigrwydd ei deyrnasiad.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gan sillafu'r mwyafrif o eiriau cyffredin yn gywir a chydag atalnodi pwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio'r iaith i ysgrifennu ystod o destunau ar draws y cwricwlwm ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn effeithiol a chywir, er enghraifft ysgrifennu erthygl ar achub parc Maesteg. Maent yn atalnodi'n gywir ac yn defnyddio ansoddeiriau ac idiomau amrywiol i gyfoethogi'r iaith yn llwyddiannus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Maent yn amrywio brawddegau yn llwyddiannus ac yn trefnu eu gwaith yn effeithiol gan ddefnyddio paragraffau synhwyrol a chrefftus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol ac yn ddychmygus mewn ystod o ffurfiau ar draws y

cwricwlwm. Maent yn medru addasu arddull ysgrifennu a strwythur i wahanol destunau yn llwyddiannus iawn, er enghraifft wrth ysgrifennu cwestiynau rhethregol ar gyfer cyfweliad gydag enwogion o fyd busnes. Mae'r rhan fwyaf yn atalnodi'n briodol a chyson ac yn defnyddio ystod eang o eirfa'n fedrus i gyfoethogi'u gwaith. Maent yn defnyddio cystrawennau amrywiol yn eu gwaith ac yn amrywio dechrau brawddegau'n effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd. Yn y Cyfnod Sylfaen maent yn defnyddio'u medrau'n llwyddiannus ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Maent yn cyfri, mesur a thrin data yn llwyddiannus gan ddefnyddio'r medrau hyn mewn meysydd amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o fesur yn eu gwaith ymchwil gwyddonol ar y deunydd gorau ar gyfer creu siwt ddŵr. Gall y rhan fwyaf gywain gwybodaeth yn llwyddiannus gan drosglwyddo'r wybodaeth i ffurf graff ac adnabod amser ar gloc analog a digidol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Maent yn datrys problemau yn hyderus ac yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol ar draws pynciau eraill. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r ffordd y mae disgyblion blwyddyn 6 yn creu cynllun busnes a chyfri elw a cholled ar gyfer eu prosiect menter a busnes. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau mesur yn effeithiol trwy gofnodi arwynebedd, onglau a pherimedr adeiladau fel Castell Harlech. Maent yn medru trefnu data'n llwyddiannus er mwyn cofnodi canlyniadau arbrofion gwyddonol, er enghraifft wrth greu graff linell ar gyfer arbrawf sy'n ymwneud â churiad y galon.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn fuan iawn ar ôl cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth meithrin yn datblygu rheolaeth o lygoden cyfrifiadur a'r bysellfwrdd yn fedrus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau'n llwyddiannus gan gynnwys defnyddio prosesydd geiriau a meddalwedd cyhoeddi pen desg i greu pamffledi a phosteri i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Maent yn cyfleu gwybodaeth yn llwyddiannus ar ffurf graff, er enghraifft i drefnu data o arbrawf gwyddonol ar effaith ongl llethr ar gyflymder cerbyd. Mae llawer o'r disgyblion yn creu dilyniant o gyfarwyddiadau ar gyfer rheoli tegan rhaglenadwy yn hyderus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh yn effeithiol iawn i gefnogi'u gwaith mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn medru defnyddio taenlenni a fformiwlâu syml i drefnu data'n effeithiol, er enghraifft ar gyfer cofnodi cyfanswm archebion eli gwefus fel rhan o brosiect menter a busnes. Maent yn medru creu bas data yn hyderus i gofnodi gwybodaeth, am hoff lyfrau'r dosbarth. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn medru cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus iawn i greu cyflwyniadau ffilm ar ystod o themâu, er enghraifft, ysgrifennu sgript ac yna creu ffilm ar hanes drychineb Aberfan gan ddefnyddio cyfarpar ffilmio a golygu'n effeithiol iawn. Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth eang a chadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae medrau meddwl y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi eu gwreiddio'n llwyddiannus iawn. Maent yn hyderus wrth drafod a datrys problemau gan ddefnyddio ystod o strategaethau'n effeithiol.

Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn is na'u cyfoedion dros y tair blynedd ddiwethaf ar gyfer y deilliant disgwyliedig ac uwch. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gymharol â'u cyfoedion ar gyfer y lefel ddisgwyliedig ond yn is ar gyfer y lefel uwch ym mhob un o'r pynciau craidd.

Nid oes patrwm arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae merched yn cyflawni'n well na'r bechgyn ar y lefel uwch mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae'r bwlch wedi cau'n arwyddocaol dros yr un cyfnod. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol gan amlaf yn uwch na'r canolrif o'i gymharu ag ysgolion tebyg mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ym mhob pwnc craidd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch mewn tair allan o'r pedair blynedd o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r un peth yn wir ar gyfer y lefel uwch yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol ar gyfer lefelau uwch na'r disgwyl mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn llai cyson dros yr un cyfnod.

**Lles: Da**

Mae cyfraniad y rhan fwyaf o ddisgyblion i fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae'r cyngor ysgol a phwyllgorau eco, masnach deg a rhyngwladol yn weithgar iawn ac yn cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'u hymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill. Mae aelodau'r pwyllgorau hyn yn canfod barn disgyblion eraill a rhieni am faterion pwysig ac yn gweithredu ar eu syniadau yn rheolaidd. Er enghraifft, maent wedi creu holiadur er mwyn ymchwilio i farn disgyblion a rhieni am gymryd gwyliau yn ystod amser ysgol. Mae hyn wedi cyfrannu'n dda at wella cyfraddau presenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol. Mae disgyblion hefyd yn cyfrannu'n dda at weithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol trwy leisio'u barn am amrywiaeth o themâu a thrwy gwrdd â llywodraethwyr yn rheolaidd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos lefelau cyson a chadarn o'u hymrwymiad a'u balchder wrth ymwneud â phob agwedd o fywyd yr ysgol. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn i wersi gan ddangos diddordeb a brwdfrydedd. Mae gallu rhan fwyaf y disgyblion i weithio'n annibynnol ac i wneud dewisiadau drostynt eu hunain yn nodweddion cryf. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda'u cyfoedion yn y gwersi ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy y gallant droi am gymorth pan fo angen. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn, sy'n cyfrannu at greu awyrgylch dysgu effeithiol.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth dda ac agwedd gadarn am sut i fyw, bwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd ymgymryd â gweithgareddau i ymarfer y corff. Maent yn dangos hunan-barch ac maent yn hyderus a chwrtais wrth siarad gyda chyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'u rôl yn y gymuned leol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i berfformio mewn nifer o gyngherddau a gwasanaethau'n lleol a chenedlaethol, er enghraifft drwy ganu yng nghyngerdd Yr Wŷl Gerdd Dant yn ogystal â Gwŷl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2017. Mae llawer o ddisgyblion hefyd yn canu ar lwyfannau amrywiol yn flynyddol ac yn ymfalchïo yn llwyddiant yr ysgol ar hyd y blynyddoedd. Mae'r cyfleoedd hyn yn nodweddion cryf o ddiwylliant ac ethos yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Er bod cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi codi'n flynyddol, mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf, maent wedi bod yn yr 50% is o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ysgogi diddordeb disgyblion a'u datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus. Mae'r ystod eang o themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn ardderchog ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn effeithiol iawn. Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol iawn. Agwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r cwricwlwm celfyddydol creadigol sy'n darparu profiadau o safon uchel ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Mae hyn yn eu hannog i ddefnyddio'u gwybodaeth a'u medrau'n greadigol ac yn fedrus ar draws holl bynciau'r cwricwlwm. Mae hyn yn cael effaith ardderchog ar fedrau llythrennedd disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ystod ardderchog o weithgareddau allgyrsiol, ymweliadau amrywiol ac ymwelwyr yn cyfoethogi'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu i ddisgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ysgol wedi sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ymwreiddio'n llwyddiannus iawn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae hyn yn nodwedd gref, sy'n arwain at gyfleoedd arloesol i ddatblygu medrau iaith, rhifedd a medrau meddwl disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fe geir enghreifftiau da o hyn yn y gwaith ar awduron enwog Cymreig, lle mae disgyblion wedi defnyddio'u medrau llythrennedd yn effeithiol i ysgrifennu sgript a chreu ffilm yn seiliedig ar gymeriadau allan o lyfr.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion o ansawdd uchel ac yn sicrhau dilyniant amlwg yn y tasgau a gweithgaredau y maent yn eu profi wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael cyfleoedd gwerthfawr iawn o'r cychwyn cyntaf wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio cyfleoedd ardderchog i ddefnyddio'u holl fedrau TGCh i greu cyflwyniadau aml-gyfrwng o safon uchel. Mae'r clwb amser cinio yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddatblygu'r medrau hyn gan gynnwys rheoli teganau a cherbydau trwy raglenni cyfrifiadurol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gynhwysfawr ac effeithiol ac yn ganolog i holl fywyd a gwaith Ysgol Cynwyd Sant. Mae'r ysgol yn llwyddo'n effeithiol iawn i sicrhau bod y cynlluniau'n cynnwys gweithgareddau sy'n cefnogi'r Cwricwlwm Cymreig yn ardderchog. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau o safon uchel sy'n datblygu'u hymwybyddiaeth o'u diwylliant a'u treftadaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith ar draddodiadau a straeon gwerin lleol fel Y Ferch o Gefn Ydfa a'r Fari Lwyd. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd arbennig i berfformio a chystadlu ar lwyfan yn lleol ac yn genedlaethol mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu'u Cymreictod a'u hunanhyder yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol.

Mae'r cynlluniau gwaith yn darparu gweithgareddau gwerthfawr iawn er mwyn datblygu dealltwriaeth disgyblion o grefyddau, traddodiadau a chelfyddyd y byd ehangach. Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau gwerthfawr gyda nifer o ysgolion ar draws y byd. O ganlyniad, mae'n derbyn ymwelwyr o wledydd tramor yn rheolaidd ac mae athrawon yn cynllunio'n fedrus i sicrhau bod disgyblion yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd ehangach trwy sgwrsio â nhw a'u holi am eu gwledydd a'u traddodiadau. Mae pwyllgorau masnach deg, rhyngwladol ac eco yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang a chynaliadwyedd yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, maent yn cynnal gweithgareddau amrywiol, sy'n cynnwys trefnu bore coffi masnach deg ac wythnos eco a chystadleuaeth ailgylchu. O ganlyniad i'r ystod o brofiadau gwerthfawr hyn, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff.

**Addysgu: Da**

Mae bron pob un o'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu cyfoethog sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm ac maent yn darparu tasgau a heriau sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd rhan fwyaf y disgyblion.

Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r staff yn meithrin annibyniaeth y disgyblion yn gynnar iawn ac yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fedrus. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon yn llwyddiannus trwy annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau mewn amrywiaeth o dasgau heriol. Mae hon yn nodwedd gref o'r addysgu ar draws yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae cyflwyniadau bywiog yr athrawon yn ysgogi disgyblion ac yn eu hannog i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau, ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae rhan fwyaf y staff yn modelu iaith safonol yn llwyddiannus iawn ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhyngddyn nhw a'r disgyblion. Maent yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd da o ystod o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu sy'n gyson ar draws yr ysgol. Maent yn cynnig adborth llafar gwerthfawr mewn gwersi ac yn defnyddio sylwadau effeithiol yn eu marcio. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent wedi ei gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. O ganlyniad, mae disgyblion yn meithrin medrau dysgu annibynnol da ac yn medru gwella darnau o'u gwaith yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol iawn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion unigol a grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae athrawon yn gwneud defnydd llwyddiannus o'r trefniadau hyn ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion yn gywir. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i gynllunio profiadau dysgu buddiol a gosod targedau heriol ar gyfer disgyblion a grwpiau penodol. O ganlyniad, mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r camau nesaf ar gyfer gwella medrau disgyblion yn llwyddiannus.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant yn rheolaidd ar ffurf adroddiadau blynyddol cynhwysfawr sy'n cynnwys targedau clir ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn datblygu medrau cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Rhoddir pwyslais cryf iawn ar ddatblygu hunanhyder disgyblion trwy eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, gweithio gydag eraill a thrwy ddefnyddio'u medrau meddwl yn effeithiol i ddatrys problemau. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer sicrhau gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles. Er enghraifft, mae disgyblion yn derbyn gwersi gwerthfawr ar sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd fel rhan naturiol o'u gwersi TGCh. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol iawn, er enghraifft drwy sesiynau cyd-addoli. Trwy groesawi ymwelwyr o wledydd tramor i'r ysgol, mae'r staff yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau a chredoau eraill yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau mewnol ac allgyrsiol yn hyrwyddo'r elfen hon yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn cynnal siop ffrwythau'n ddyddiol ac yn helpu monitro bocsys bwyd eu cyfoedion er mwyn eu helpu i ddeall yr hyn sydd ei angen i fwyta'n iach.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel seicolegydd addysg, y nyrs ysgol a'r gwasanaeth iaith a lleferydd. Yn ogystal â hyn, mae arweinydd lles yr ysgol yn cefnogi disgyblion a theuluoedd bregus yn effeithiol. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion, staff a rhieni. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy weithdrefnau pontio llwyddiannus gyda mudiadau cyn ysgol a thrwy weithredu gweithdrefnau clir o fewn yr ysgol. O ganlyniad, maent yn medru addasu'r ddarpariaeth ar gyfer unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr, a sicrhau ymyrraeth gynnar i fodloni eu hanghenion. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir ac maent yn cael eu trafod yn rheolaidd gyda'r rhieni a disgyblion. Trwy gydweithio effeithiol gyda disgyblion a rhieni yn y broses hon, mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan Ysgol Cynwyd Sant ethos croesawgar, cynnes, cynhwysol a gofalgar, lle mae disgyblion yn cael hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a gweithgareddau. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i leisio'u barn am fywyd yr ysgol ac yn eu hybu i gynrychioli'u cyfoedion ar amryw o bwyllgorau.

Rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd dangos parch a chwrteisi at bawb ac i werthfawrogi amrywiaeth yn ein cymdeithas. Enghraifft dda o hyn yw'r cysylltiadau gyda gwledydd fel India a Brasil, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant nhw eu hunain a diwylliant a chefndiroedd pobl o wahanol wledydd.

Er gwaetha'r hen adeilad, mae'r ysgol yn gwneud y gorau o'i hamgylchedd ffisegol. Mae'r amgylchedd allanol yn cynnwys ardaloedd pwrpasol sydd wedi'u datblygu'n llwyddiannus ar gyfer cefnogi profiadau dysgu disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Ceir cyflenwad da o adnoddau o ansawdd uchel, gan gynnwys cyfarpar TGCh a llyfrau, sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o offer chwaraeon ac mae arddangosfeydd yn amlygu gweithgareddau, diwylliant ac ethos yr ysgol yn effeithiol iawn.

Mae'r adeiladau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth flaengar ac arloesol y pennaeth yn sicrhau ei bod yn rhannu ei gweledigaeth a'i hathroniaeth yn llwyddiannus iawn â'r tîm arwain, gweddill staff yr ysgol, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar sicrhau amrywiaeth eang o brofiadau a chyfleoedd i'w disgyblion. Mae'r bartneriaeth effeithiol iawn sy'n bodoli rhwng y pennaeth a'r dirprwy yn sicrhau arweinyddiaeth a chyfeiriad clir i holl aelodau'r gymuned ysgol.

Trwy ddosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol iawn a meithrin medrau arweinyddiaeth y tîm arwain yn fedrus, mae arweinwyr yr ysgol yn cyfrannu'n ardderchog at sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel a chodi safonau ar draws yr ysgol. Mae gan arweinwyr ar bob lefel ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn gwneud defnydd rhagorol o'u harbenigeddau er mwyn arwain eraill yn llwyddiannus. Mae ganddynt rôl allweddol

mewn arwain blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol a rhannu arfer dda o fewn yr ysgol a thu hwnt iddi. O ganlyniad, mae ansawdd y profiadau dysgu a'r cwricwlwm celfyddydau creadigol, yn arbennig, yn elfennau rhagorol o waith yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau llafaredd a dysgu annibynnol disgyblion yn ogystal â datblygu rôl aelodau'r tîm arwain yn fedrus iawn. Fel ysgol sy'n rhan o rwydweithiau arloesi'r cwricwlwm, mae arweinwyr yn llwyddo i gefnogi arloesedd a chreadigrwydd wrth gyflwyno gweithdrefnau a chwricwlwm ysgogol i ddisgyblion. Maent hefyd yn ymateb yn llwyddiannus iawn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yn ogystal â pharatoi ar gyfer cyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae pob aelod staff yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac yn cyfrannu'n fedrus i sicrhau gwelliannau parhaus ar draws yr ysgol. Yn yr un modd ag aelodau'r tîm arwain, maent yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd fel ysgol gyfan, adrannau a thimau dysgu i drafod materion a chynllunio ar y cyd. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o flaenoriaethau'r ysgol.

Mae datblygiad proffesiynol yr holl staff yn nodwedd gref o weithdrefnau'r ysgol ac yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy weithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol. Mae targedau'n cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ac yn annog gwelliannau parhaus.

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ymgymryd â gweithgareddau monitro ac i drafod darpariaeth a safonau gydag arweinwyr a staff. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth sicr am gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol. Enghraifft dda yw'r ffordd mae aelodau'r corff yn herio'r ysgol ynglŷn â safonau rhifedd gan sicrhau bod gweithdrefnau penodol ar waith i ymateb i hyn. Trwy fentora llywodraethwyr newydd, maent yn sicrhau bod pob aelod yn cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd ac at y rhaglen hunanarfarnu.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ddiwylliant llwyddiannus o hunanarfarnu a sicrhau gwelliant sy'n treiddio trwy bron pob agwedd o'i bywyd. Mae'n weithdrefn drylwyr ac effeithiol sy'n ganolog i allu'r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant. Mae'r gweithdrefnau yn sicrhau bod yr ysgol yn adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn barhaus ac yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan arweinwyr a staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae'r weithdrefn hunanarfarnu'n cynnwys barn rhanddeiliaid ac mae llais y disgyblion yn nodwedd ragorol ohoni. Mae disgyblion yn cyfrannu'n ystyrlon i'r broses hon trwy arfarnu gwersi, y cwricwlwm a chynorthwyo i greu polisïau. Mae eu llais yn dylanwadu'n gryf ar sicrhau trefniadau a chwricwlwm celfyddydau creadigol llwyddiannus. Mae rôl yr holl staff hefyd yn rhan allweddol o weithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol. Mae eu cynnwys yn hybu perchnogaeth ac yn sicrhau bod pawb yn cyfrannu'n effeithiol at weithgareddau fel dadansoddi data a chraffu ar lyfrau.

Mae'r drefn ar gyfer arsylwi gwersi mewn triawdau yn nodwedd ardderchog o'r broses. Rhoddir arweiniad clir i staff ar sut i arfarnu effaith addysgu ar gynnydd disgyblion. Yna, maent, yn eu tro, yn arsylwi ar ei gilydd yn addysgu, mewn triawdau, a thrafod y rhinweddau a'r mannau lle y gellir gwella. Yn dilyn hyn, mae arweinwyr yn cyflwyno adroddiadau cynhwysfawr, arfarnol a defnyddiol iawn i'r staff a'r llywodraethwyr ar y cylch arsylwi gwersi. Trwy wneud hyn yn rheolaidd, mae arweinwyr yn rhoi ffocws clir ar y meysydd sydd angen eu gwella a datblygu ymhellach yn barhaus. Mae hyn yn sicrhau cynllunio effeithiol yn ogystal â chreu diwylliant o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant parhaus ymhlith yr holl randdeiliaid. Mae'r ysgol wedi rhannu'r arddull hon yn llwyddiannus gydag ysgolion eraill y tu mewn a thu hwnt i'r consortiwm rhanbarthol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwireddu blaenoriaethau gwella sy'n deillio o'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun gwella o safon uchel ac yn manylu'n gynhwysfawr ar holl flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r blaenoriaethau a fynegir o ran cyflawniad a chynnydd disgyblion yn heriol ac yn ymateb yn llwyddiannus i'r materion sydd angen gwella. Gosodir targedau manwl ar gyfer bron pob un o'r dangosyddion, a nodir cyfrifoldebau monitro a gwerthuso effeithiolrwydd yn glir. Mae'r cynllun wedi ei ariannu'n ofalus ac wedi ei osod o fewn fframwaith amser ymarferol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn datblygu arferion cydweithio rhagorol gyda nifer fawr o ysgolion a mudiadau eraill yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'n cael ei hadnabod fel canolfan ddysgu broffesiynol effeithiol sy'n rhannu ei harfer dda yn llwyddiannus iawn, yn enwedig ei harbenigedd ar y cwricwlwm celfyddydau creadigol, arweinyddiaeth, datblygiad athrawon ac ar ledaenu gwybodaeth ac egwyddorion arbrofi â meysydd penodol o'r cwricwlwm. Mae arweinwyr a staff yn cyfrannu'n rheolaidd mewn cynadleddau a sesiynau hyfforddiant ar lefel leol, clwstwr, consortiwm rhanbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant a rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon y consortiwm rhanbarthol yn ogystal â sicrhau cyfleoedd i grwpiau o ddarpar athrawon arsylwi ar arfer dda. Mae hyn yn cryfhau cymhwysedd staff yr ysgol yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus yn ogystal â meithrin medrau arweinwyr ar gyfer y dyfodol. Mae hyn hefyd wedi cael effaith ardderchog ar safonau iaith disgyblion ar draws yr ysgol, yn enwedig medrau llafar, ysgrifennu a TGCh disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas gref â rhieni ac aelodau o'r gymuned. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r profiadau y mae'r disgyblion yn eu derbyn. Mae rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i fynychu gwasanaethau gwobrwyo neu achlysuron arbennig. Mae'r diwylliant agored, cynhwysol a chydweithredol sy'n rhan ganolog o ethos ac egwyddorion yr ysgol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson y rhieni ac aelodau'r gymuned. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth fuddiol iawn i deuluoedd bregus trwy ystod o brosiectau teuluol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les disgyblion a'u gallu i ddysgu. Mae'r gymdeithas rieni yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn helpu i brynu adnoddau a chefnogi ymweliadau trwy gyfrannu'n ariannol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â'r gymuned leol a busnesau sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth ac yn ehangu profiadau disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gyfleusterau lleol er mwyn hybu iechyd a lles disgyblion yn ogystal â'u medrau cymdeithasol a llythrennedd yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'r ganolfan hamdden a chaeau chwarae ar gyfer gwersi a chystadlaethau chwaraeon. Mae cysylltiadau buddiol yn bodoli gyda busnesau lleol sy'n cyfrannu'n dda at feithrin dealltwriaeth disgyblion o fyd busnes a gwaith, er enghraifft trwy gynnal sesiwn holi ac ateb gyda disgyblion Blwyddyn 6 fel rhan o'u prosiect entrepreneuraidd.

Mae'r bartneriaeth effeithiol a threfniadau pontio amrywiol sy'n bodoli yn hyrwyddo trosglwyddo llwyddiannus i'r disgyblion i'r ysgol uwchradd.

Mae perthynas dda iawn yn bodoli hefyd gyda meithrinfeydd sy'n bwydo'r ysgol. Nodwedd gref yw'r diwrnodau a nosweithiau agored i rieni a phlant y mudiadau hyn sy'n cael eu cynnal cyn i iddynt drosglwyddo i'r dosbarth meithrin. Mae'r ysgol hefyd yn darparu diwrnodau pontio effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n symud o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2 yn ogystal â gwybodaeth werthfawr i rieni. Mae'r holl gydweithio cyson a pharhaus hwn yn werthfawr i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda o fewn eu hamgylchedd dysgu newydd.

Mae system effeithiol o safoni a chymedroli gwaith disgyblion wedi ei sefydlu ar draws yr ysgol a chydag ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgol uwchradd. Mae'r prosesau hyn yn atgyfnerthu dealltwriaeth a barn athrawon o'r safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff gweinyddol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus. Maent yn gwneud penderfyniadau effeithlon ar wariant wrth ymateb i flaenoriaethau ysgol. Mae cyllideb ar gyfer gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi ei chlustnodi'n glir ac yn cael ei defnyddio yn effeithiol i ymateb i anghenion penodol. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad o adnoddau pwrpasol sy'n ymateb i anghenion y disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol ac mae hyfforddiant pwrpasol yn cefnogi hyn yn llwyddiannus. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â'r athroniaeth sy'n gyrru gwaith yr ysgol. Nodwedd arbennig yw'r modd mae staff yn arsylwi ar ei gilydd er mwyn creu cyfleoedd effeithlon i drafod addysgu a dysgu gyda'r bwriad o wella'u hymarfer. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at gysondeb mewn elfennau penodol o addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r athrawon yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddeilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol iawn. Mae rhwydweithiau llwyddiannus yn bodoli gyda nifer o ysgolion a mudiadau eraill sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr ddatblygu'n broffesiynol a chydweithio'n llwyddiannus i wella safonau gwaith disgyblion. Mae hon yn nodwedd ardderchog.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllid o ffynonellau eraill i wella'r ddarpariaeth yn yr ysgol ac i weithredu prosiectau, er enghraifft i ddatblygu'r cwricwlwm celfyddydau creadigol ac i ddatblygu ymhellach fel ysgol arloesi. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles grŵp penodol o ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6722259 - YGG Cynwyd Sant**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 311 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 35 | 37 | 37 | 41 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 88.6 | 75.7 | 94.6 | 95.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 37 | 37 | 41 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.4 | 86.5 | 94.6 | 95.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.4 | 18.9 | 48.6 | 43.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 37 | 37 | 41 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.4 | 81.1 | 97.3 | 97.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.4 | 13.5 | 51.4 | 63.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 35 | 37 | 37 | 41 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 97.1 | 89.2 | 97.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 45.7 | 37.8 | 70.3 | 73.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6722259 - YGG Cynwyd Sant**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 311 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 25 | 26 | 35 | 28 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.0 | 100.0 | 97.1 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 26 | 35 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.0 | 100.0 | 97.1 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 42.3 | 48.6 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 26 | 35 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.0 | 100.0 | 97.1 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 42.3 | 51.4 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 26 | 35 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.0 | 100.0 | 97.1 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 69.2 | 45.7 | 35.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 25 | 26 | 35 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.0 | 100.0 | 97.1 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 24.0 | 46.2 | 40.0 | 32.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 98 | 95 | 3 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 91 | 7 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 97 | 93 | 4 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 98 | 95 | 3 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 91 | 7 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 98 | 89 | 9 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 98 | 97 | 1 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 98 | 94 | 4 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 98 | 92 | 6 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 98 | 90 | 8 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 74 | 24 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 76% | 24% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 98 | 71 | 27 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 72% | 28% | |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 48 | 25 | 18 | 3 | 2 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 52% | 38% | 6% | 4% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 49 | 34 | 14 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 69% | 29% | 2% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 49 | 33 | 15 | 0 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 0% | 2% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 46 | 22 | 24 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 48% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 46 | 19 | 25 | 2 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 41% | 54% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 47 | 22 | 24 | 1 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 47% | 51% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 49 | 30 | 19 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 47 | 24 | 20 | 2 | 1 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 51% | 43% | 4% | 2% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 45 | 22 | 18 | 3 | 2 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 49% | 40% | 7% | 4% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 49 | 27 | 18 | 2 | 2 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 55% | 37% | 4% | 4% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 49 | 28 | 19 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 57% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 37 | 15 | 16 | 5 | 1 | 10 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 41% | 43% | 14% | 3% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 47 | 17 | 22 | 5 | 3 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 36% | 47% | 11% | 6% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 48 | 21<br>44% | 20<br>42% | 4<br>8% | 3<br>6% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 47 | 19<br>40% | 20<br>43% | 3<br>6% | 5<br>11% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 48 | 22<br>46% | 24<br>50% | 1<br>2% | 1<br>2% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 31 | 17<br>55% | 14<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 18 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 48 | 16<br>33% | 24<br>50% | 4<br>8% | 4<br>8% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 45 | 21<br>47% | 20<br>44% | 1<br>2% | 3<br>7% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Robert Gwyn Williams | Arolygydd Tîm |
| Catrin Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tegwen Ellis | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.